Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|
| 39.8 | 18.7.24 | |
| Teitl / Title | | Er / For |
| Ymgynghoriad ar Strategaeth y Gymraeg | | *Gwybodaeth* |
| Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues | | |

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith gyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

Mae Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach. Yn rhan o'r Strategaeth mae'n ofynnol gosod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Strategaeth hon yn gosod sut bydd y Cyngor, yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol, a hynny drwy gyd-weithio gyda sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

**Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-2029:**

Daeth cyfnod y Strategaeth gyfredol i ben yn 2023 gydag adroddiad cyrhaeddiad wedi ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith. Roedd hi'n ofynnol i ni baratoi Strategaeth newydd yn unol â'r gofynion statudol. Mae'r Strategaeth newydd yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Iaith 2018-23 a'r gwaith arbennig a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir.

Dyma weledigaeth gadarn ar gyfer Strategaeth 2024-2029:

**"Cynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Sir. Ein gweledigaeth yw y bydd y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir."**

Yn ogystal, er mwyn gwireddu'r weledigaeth gosodwyd 4 thema strategol - mae Ceredigion yn fan lle mae modd dysgu, byw, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth hon:

1. Rydym eisiau gweld pawb o fewn y sir yn rhoi gwerth a bri i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

2. Rydym am weld defnydd cynyddol ohoni ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn y sir; lle mae modd i drigolion fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Rydym am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbwl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

4. Rydym yn tybio bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1.5% o 45.3% yn 2021 i 46.8% yn 2029, bydd hyn yn arwain at gynnydd o 612 o siaradwyr Cymraeg oddi ar linell sylfaen 2021. Mae hyn yn golygu erbyn 2029 dylai fod 32,292 o drigolion yn siarad Cymraeg yng Ngheredigion.

Bydd camau gweithredu yn gysylltiedig â phob un o'r bedair thema.

| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
|---|
| |
| **Argymhellion / Recommendations** |
| Y Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yn cael ei gyflwyno i sylw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – Er Gwybodaeth. |
| **Atodiadau / Attachments** |
| Atodiad 1 – Strategaeth Hybu'r Gymraeg |
| **Swyddog Adrodd / Reporting Officer** |
| Carys Lloyd-Jones |